# YSGOLION YR 21AIN GANRIF






YMGYNGHORIAD AR GYNNIG I SEFYDLU YSGOL GYNRADD CYFRWNG CYMRAEG NEWYDD AR GYFER PLANT 3 I 11 OED YN RHAN O DDATBLYGIAD TAI LLANILID A'R CYNNIG I NEWID CYFRWNG IAITH YSGOL GYNRADD DOLAU O YSGOL SYDD Â DWY FFRWD IAITH I YSGOL CYFRWNG SAESNEG.

Mae'r ddogfen ymgynghori a'r atodiadau yma hefyd ar gael ar dudalen 'Dod yn rhan o bethau' ar wefan Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf.

| Tabl Cynnwys | Tudalen |
|---|---|
| **Cyflwyniad** | |
| Ymgyngoreion | 2 |
| Y Broses ymgynghori | 3 |
| Beth i'w drafod? | 3 |
| Lleisio'ch barn | 3 |
| Barn plant a phobl ifainc | 4 |
| Asesiadau o'r Effaith ar y Gymuned, ar Gydraddoldeb ac ar y Gymraeg | 5 |
| **Adran 1 – Cefndir i'r cynnig** | |
| Y sefyllfa ar hyn o bryd… Ysgol Gynradd Dolau | 6 |
| Cefndir i'r cynnig | 9 |
| Opsiynau eraill a gafodd eu hystyried | 10 |
| Buddion ac anfanteision, risgiau a ffactorau lliniaru | 16 |
| Ble hoffen ni fod... | 18 |
| Darpariaeth Anghenion Dysgu Ychwanegol | 21 |
| Y Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg | 21 |
| Trefniadau Derbyn Disgyblion | 23 |
| **Adran 2 – Effaith debygol y cynnig** | |
| Sail addysgol y cynnig | 24 |
| Effaith debygol y cynnig ar ddisgyblion | 27 |
| Effaith debygol y cynnig ar y staff | 27 |
| Goblygiadau ariannol y cynnig | 28 |
| Cludiant rhwng y Cartref a'r Ysgol | 28 |
| Gwybodaeth o ran tir ac adeiladau | 29 |
| **Ffurflen Ymateb i'r Ymgynghoriad** | |
| Ffurflen Ymateb i'r Ymgynghoriad | 30 |
| **Atodiad A** Asesiad o'r Effaith ar y Gymuned | |
| **Atodiad B** Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb | |
| **Atodiad C** Asesiad o'r Effaith ar y Gymraeg | |

## Cyflwyniad

Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf [y Cyngor] yn dymuno ceisio barn rhanddeiliaid ar y cynnig i sefydlu ysgol gynradd cyfrwng Cymraeg newydd ar gyfer plant 3 i 11 oed yn rhan o ddatblygiad tai Llanilid a'r cynnig i newid cyfrwng iaith Ysgol Gynradd Dolau o ysgol sydd â dwy ffrwd iaith i ysgol cyfrwng Saesneg. Cynigir y bydd yr ysgol gynradd cyfrwng Cymraeg newydd yn agor erbyn blwyddyn academaidd 2027, gyda lle i 480 o ddisgyblion oedran ysgol statudol (dosbarth derbyn i flwyddyn 6), a 60 ar gyfer disgyblion oed meithrin, gydag Ysgol Gynradd Dolau yn dod yn ysgol gynradd cyfrwng Saesneg ar yr un pryd, gyda chapasiti mwy o 488 ynghyd â 63 o leoedd meithrin.

Mae'r cynnig yma'n cael ei wneud yn unol â Chod Trefniadaeth Ysgolion 2018 Llywodraeth Cymru (2il Rifyn) (011/2018). Mae Adran 2.1 o God Trefniadaeth Ysgolion 2018 Llywodraeth Cymru (2il Rifyn) (011/2018) yn cyfeirio at elfennau o drefniadaeth ysgolion sy’n gofyn am gyhoeddi cynigion, gan gynnwys:

- Agor ysgol a gynhelir.
- Gwneud newid a reoleiddir i ysgol a gynhelir

**Ymgyngoreion**

Byddwn ni'n ceisio barn y rhanddeiliaid canlynol:

- Corff Llywodraethu Ysgol Gynradd Dolau
- Rhieni/gwarcheidwaid, darpar rieni/warcheidwaid (lle bo modd), ac aelodau staff Ysgol Gynradd Dolau
- Disgyblion Ysgol Gynradd Dolau
- Cynghorau Cyfagos
- Awdurdod yr Eglwys yng Nghymru ac Awdurdod Esgobaethol yr Eglwys Gatholig
- Gweinidogion Cymru
- Aelodau’r Senedd ac Aelodau Rhanbarthol o'r Senedd ar gyfer yr ardal
- Aelodau Seneddol ar gyfer yr ardal
- Estyn
- Undebau llafur athrawon a staff
- Gwasanaeth Addysg ar y Cyd - Consortiwm Canolbarth y De
- Y Comisiynydd Heddlu a Throseddu ar gyfer yr ardal
- Darparwyr Gofal Plant
- Mudiad Meithrin
- Menter Iaith
- Partneriaeth Datblygu Addysg y Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant
- Partneriaeth Plant a Phobl Ifainc
- Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg
- Comisiynydd y Gymraeg
- Cyngor Cymuned Llanharan.

**Y broses ymgynghori**

Bydd yr ymgynghoriad yn dechrau ddydd Llun 9 Medi 2024 ac yn dod i ben am 17:00 ddydd Gwener 25 Hydref 2024. Bydd yr adborth o'r ymgynghoriad yn cael ei goladu a'i grynhoi, a bydd adroddiad ar yr ymgynghoriad yn cael ei gyflwyno i Gabinet y Cyngor yn ystod mis Tachwedd 2024. Bydd yr adroddiad yma ar gael i bawb ei weld ar wefan y Cyngor, a bydd copïau papur ar gael ar gais o'r cyfeiriad a nodir ar dudalen 4 y ddogfen ymgynghori yma.

Bydd Cabinet Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf (y Cyngor) yn trafod Adroddiad yr Ymgynghoriad ac yn penderfynu - yn seiliedig ar yr adborth - a ddylid bwrw ymlaen â'r cynnig, diwygio'r cynnig, neu beidio â bwrw ymlaen ag ef. Os bydd Cabinet y Cyngor yn penderfynu peidio â bwrw ymlaen, dyna fydd diwedd y cynnig yma.

Os bydd Cabinet y Cyngor yn penderfynu bwrw ymlaen â'r cynnig, bydd Hysbysiad Statudol yn cael ei gyhoeddi gan roi cyfnod 28 diwrnod o rybudd ar gyfer gwrthwynebiadau. Mae'r Ddeddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013 yn ei gwneud hi'n ofynnol bod unrhyw un sy'n dymuno gwrthwynebu cynnig trefniadaeth ysgolion, yn cael y cyfle i wneud hynny. Er mwyn ystyried gwrthwynebiadau yn rhai statudol, **rhaid** eu cyflwyno'n ysgrifenedig neu drwy e-bost, a'u hanfon at y Cyngor cyn pen 28 diwrnod i'r dyddiad y cafodd yr Hysbysiad Statudol ei gyhoeddi. Mae modd dod o hyd i fanylion cyswllt ar dudalen 4.

Bydd Cabinet y Cyngor yn trafod deilliannau'r hysbysiad statudol yng nghyfarfod nesaf (cyfleus) y Cabinet ac yn penderfynu ar y cynnig.

Os bydd gwrthwynebiadau, bydd Cyfarwyddwr Addysg a Gwasanaethau Cynhwysiant y Cyngor yn cyhoeddi Adroddiad Gwrthwynebu gan ddarparu crynodeb o'r gwrthwynebiadau a'i ymateb iddyn nhw cyn pen 7 diwrnod o benderfyniad ar y cynnig. Bydd yr Adroddiad Gwrthwynebiadau yma ar gael i bawb ei ddarllen ar wefan y Cyngor hefyd, a bydd copïau ar gael ar gais o'r cyfeiriadau sydd ar dudalen pedwar y ddogfen ymgynghori yma.

Os yw Cabinet y Cyngor yn cymeradwyo'r cynnig, caiff ei weithredu yn unol â'r dyddiad a gafodd ei roi yn yr Hysbysiad Statudol neu unrhyw ddyddiad sydd wedi'i addasu, wedi hynny.

**Beth i'w Drafod?**

Mae gweddill y ddogfen ymgynghori yma'n nodi'r rhesymeg dros y cynnig. Hoffen ni i chi ystyried yr wybodaeth a chlywed eich barn ynglŷn ag a ydych chi'n cefnogi'r cynnig yma ai peidio.

**Lleisio'ch barn**

Bydd cyfarfodydd wyneb yn wyneb yn cael eu trefnu gyda Chyngor yr Ysgol, y Corff Llywodraethu a staff a'r gymuned ehangach fel a ganlyn:

| Ysgolion fydd yn cael eu heffeithio | Cyfadran | Amser/Dyddiad | Lleoliad |
|---|---|---|---|
| **Cyngor Ysgol** | | | |
| Ysgol Gynradd Dolau | Cyngor Ysgol | 13:30 Dydd Iau, 10 Hydref 2024 | Ysgol Gynradd Dolau |
| **Corff Llywodraethu a Staff** | | | |
| Ysgol Gynradd Dolau | Corff Llywodraethu a Staff | 15:45 Dydd Llun, 30 Medi 2024 | Ysgol Gynradd Dolau |
| **Sesiwn galw heibio i'r cyhoedd** | | | |
| Rhieni/gwarcheidwaid ac aelodau o'r gymuned leol. | | 15:00 tan 18:00 Dydd Iau, 10 Hydref 2024 | Ysgol Gynradd Dolau |

Mae Ffurflen Ymateb i'r Ymgynghoriad ynghlwm ar dudalen 30 o'r Ddogfen Ymgynghori yma. Bydd Ffurflen Ymateb i'r Ymgynghoriad hefyd ar gael yn y cyfarfodydd sydd wedi'u nodi yn y tabl blaenorol ac ar wefan y Cyngor ar y dudalen 'Dod yn rhan o bethau'.

Mae'r Ffurflen Ymateb i'r Ymgynghoriad hefyd yn fodd i ymgyngoreion nodi eu dymuniad i gael gwybod am gyhoeddi Adroddiad yr Ymgynghoriad ar ôl ei gyflwyno i Gabinet y Cyngor.

Mae croeso hefyd i ymgyngoreion rannu eu barn, eu sylwadau, ac unrhyw gwestiynau yn ysgrifenedig i:

| | | |
|---|---|---|
| Cyfarwyddwr Addysg a Gwasanaethau Cynhwysiant<br>Rhaglen Ysgolion yr 21ain Ganrif<br>Canolfan Menter y Cymoedd<br>Parc Hen Lofa'r Navigation<br>Abercynon<br>CF45 4SN | **NEU** | CynllunioYsgolion@rctcbc.gov.uk |

**Dylai pob gohebiaeth ddod i law erbyn 17:00 ddydd Gwener 25 Hydref 2024.**

Nodwch na fydd ymatebion i'r ymgynghoriad yn cael eu cyfrif fel gwrthwynebiadau i'r cynnig oni bai fod cais arbennig i wneud hynny. Dim ond ar ôl cyhoeddi'r Hysbysiad Statudol y mae modd anfon gwrthwynebiadau.

**Barn plant a phobl ifainc**

Mae'r Cyngor wedi cydnabod bod llais plant a phobl ifainc yn bwysig, a dylen nhw gael eu cynnwys fel cyfranogwyr gweithredol o'r broses datblygu, cyflawni, rheoli a gwella eu profiad addysgol.

Mae gan blant a phobl ifainc hawl i fynegi eu barn ar bob mater sy'n cael effaith arnyn nhw ac i'w barn gael ei chlywed a'i hystyried yn unol â'u hoedran a'u haeddfedrwydd. Felly, bydd Carfan Ysgolion yr 21ain Ganrif Cyfarwyddiaeth Addysg

a Gwasanaethau Cynhwysiant y Cyngor yn sicrhau bod trefniadau addas yn cael eu gwneud i gynnwys plant a phobl ifainc yn gyfranogwyr gweithredol trwy gydol y broses ymgynghori ac, os penderfynir bwrw ymlaen â'r cynnig, drwy gydol y broses weithredu.

Bydd y Cyngor yn ymgynghori â’r plant a’r bobl ifainc sy’n mynychu Ysgol Gynradd Dolau. Bydd hyn yn cael ei wneud drwy gyfarfod â Chyngor Ysgol Ysgol Gynradd Dolau i drafod y cynnig. Bydd y sesiwn ymgynghori yma'n cael cefnogaeth staff arbenigol mewn ysgolion i gefnogi disgyblion a chynorthwyo gyda'r broses ymgysylltu. Bydd adborth o'r cyfarfodydd yma'n cael eu coladu a'u crynhoi, a bydd Adroddiad Ymgynghori yn cael ei gyflwyno i Gabinet y Cyngor i'w drafod unwaith y bydd y cyfnod ymgynghori wedi dod i ben.

## Asesiadau o'r Effaith ar y Gymuned, ar Gydraddoldeb ac ar y Gymraeg

Fel sydd wedi'i nodi yng Nghod Trefniadaeth Ysgolion Llywodraeth Cymru (2[il] Rifyn) (011/2018), mae'n ofynnol inni gyhoeddi Asesiadau Effaith ar y Gymuned, Effaith ar y Gymraeg ac Effaith ar Gydraddoldeb. Mae'r rhain wedi'u llunio fel atodiadau i'r ddogfen ymgynghori yma ac maen nhw hefyd ar gael ar wefan y Cyngor:

- Atodiad A - Asesiad o'r Effaith ar y Gymuned
- Atodiad B – Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb
- Atodiad C - Asesiad o'r Effaith ar y Gymraeg

## Adran 1 – Cefndir i'r cynnig

**<u>Y sefyllfa ar hyn o bryd… Ysgol Gynradd Dolau</u>**

Mae Ysgol Gynradd Dolau yn ysgol gynradd ddwyieithog 3 i 11 oed ar Heol Pen-y-bont, Llanharan, Pont-y-clun gyda lle i 441 o ddisgyblion oedran ysgol statudol.

Adeiladwyd Ysgol Gynradd Dolau tua 1928 a chafodd adeilad ysgol newydd ychwanegol ei ychwanegu yn 2009. Yn ôl arolwg cyflwr yr ysgol a gafodd ei gynnal gan y Cyngor yn 2019, mae Ysgol Gynradd Dolau wedi'i graddio'n B o ran ei chyflwr, a gradd B o ran addasrwydd (lle A yw'r gorau a D yw'r gwaethaf o ran safon). Mae hyn yn golygu, o ran cyflwr, bod Ysgol Gynradd Dolau mewn cyflwr da.

Mae'r ffigur ar gyfer y rhestr hir o waith cynnal a chadw ar gyfer Ysgol Gynradd Dolau gwerth oddeutu £285,660. Mae'r ffigur yma'n cynrychioli cyfanswm cost yr holl waith cynnal a chadw y nodwyd ei fod yn ofynnol yn yr ysgol.

Mae'r safle ei hun ac adeilad yr ysgol yn cydymffurfio â'r <u>Ddeddf Cydraddoldeb 2010</u> ac mae wedi'i raddio'n B am hygyrchedd sy'n golygu ei fod yn rhannol hygyrch.




*Ysgol Gynradd Dolau o'r tu allan.*

Mae data Cyfrifiad Ysgolion Blynyddol ar Lefel Disgyblion (CYBLD) 2024 yn nodi bod 466 o ddisgyblion oedran ysgol statudol yn mynychu Ysgol Gynradd Dolau ar hyn o bryd, 155 o ddisgyblion oedran ysgol statudol yn cael eu haddysgu drwy gyfrwng y Gymraeg a 311 o ddisgyblion oedran ysgol statudol yn cael eu haddysgu drwy gyfrwng y Saesneg. Mae'r tabl dilynol yn amlinellu nifer y disgyblion yn Ysgol Gynradd Dolau dros y pum mlynedd academaidd flaenorol, wedi'i rannu yn ôl cyfrwng iaith. Caiff niferoedd y disgyblion o oedran meithrin ar gyfer pob blwyddyn academaidd eu dangos ar wahân, yn unol â <u>Chod Trefniadaeth Ysgolion 2018 Llywodraeth Cymru (2il Rifyn) (011/2018)</u>.

| **Niferoedd Disgyblion Ysgol Gynradd Dolau Dros y Pum Mlynedd Academaidd Flaenorol (CYBLD) wedi'i rannu yn ôl Cyfrwng Saesneg a Chyfrwng Cymraeg** | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| **Disgyblion** | **Blwyddyn Academaidd** | | | | |
| | **2019/2020** | **2020/2021** | **2021/2022** | **2022/2023** | **2023/2024** |
| **Disgyblion Oed Ysgol Statudol (Cyfrwng Saesneg)** | 275 | 282 | 294 | 310 | 311 |
| **Disgyblion Oed Ysgol Statudol (Cyfrwng Cymraeg)** | 163 | 164 | 166 | 151 | 155 |
| **Disgyblion Oed Meithrin (Cyfrwng Saesneg)** | 45 | 43 | 50 | 32 | 48 |
| **Disgyblion Oed Meithrin (Cyfrwng Cymraeg)** | 24 | 21 | 10 | 28 | 18 |
| **Cyfanswm (Cyfrwng Saesneg)** | **320** | **325** | **344** | **342** | **359** |
| **Cyfanswm (Cyfrwng Cymraeg)** | **187** | **185** | **176** | **179** | **173** |
| **Cyfanswm (Cyfunol)** | **507** | **510** | **520** | **521** | **532** |

Mae'r data'n dangos, rhwng blynyddoedd academaidd 2019/2020 a 2023/2024:

- Mae nifer y disgyblion o oedran ysgol statudol sy'n mynychu Ysgol Gynradd Dolau yn cael eu haddysgu trwy gyfrwng:
  - y Saesneg wedi cynyddu 13.1% (36) o 275 i 311.
  - y Gymraeg wedi gostwng 4.9% (8) o 163 i 155.
- Mae cyfanswm y disgyblion sy'n mynychu Ysgol Gynradd Dolau yn cael eu haddysgu trwy gyfrwng:
  - y Saesneg wedi cynyddu 10.9% (39) o 320 i 359.
  - y Gymraeg wedi gostwng 7.5% (14) o 187 i 173.

Mae’r data’n amlygu’n glir nad yw’r niferoedd mewn addysg cyfrwng Cymraeg yn Ysgol Gynradd Dolau wedi dangos y twf angenrheidiol y bydden ni wedi gobeithio ei weld i gefnogi’r Cyngor i gyrraedd ei darged uchelgeisiol yn y Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg.

Mae’r tabl dilynol yn amlinellu'r rhagolygon o ran nifer y disgyblion yn Ysgol Gynradd Dolau dros y pum mlynedd academaidd i ddod. Mae'r niferoedd wedi'u cyfrifo yn unol â’r canllawiau a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru ac yn seiliedig ar ddata genedigaethau byw ar gyfer yr ardal.

| Rhagolygon o ran Nifer y Disgyblion yn Ysgol Gynradd Dolau Dros y Pum Mlynedd Academaidd yn y Dyfodol (CYBLD) | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Disgyblion** | **Nifer y lleoedd** | **Blwyddyn Academaidd** | | | | | | **Lleoedd Gwag yn 2028/2029** | |
| | | **Gwir ffigwr** | **Amcanestyniadau** | | | | | | |
| | | **2023 / 2024** | **2024 / 2025** | **2025 / 2026** | **2026 / 2027** | **2027 / 2028** | **2028 / 2029** | **Nifer** | **%** |
| **Disgyblion Oed Ysgol Statudol** | 441 | 466 | 466 | 469 | 461 | 458 | 451 | -10 | -2.3% |
| **Disgyblion oed meithrin** | Dd/B | 66 | 57 | 62 | 60 | 53 | 47 | Dd/B | Dd/B |
| **Cyfanswm** | **504** | **532** | **523** | **531** | **521** | **511** | **498** | | |

Mae'r data'n dangos erbyn blwyddyn academaidd 2028/2029:

- Bydd -2.3% (-10) o gapasiti oedran ysgol statudol yn Ysgol Gynradd Dolau.

Mae'r tabl dilynol yn amlinellu'r ddarpariaeth gynradd cyfrwng Cymraeg yn ardal Ysgol Gynradd Dolau. Yr ysgolion cynradd sydd wedi'u cynnwys yw'r ysgolion cynradd cysylltiedig â'r ysgol uwchradd, Ysgol Llanhari.

| Darpariaeth Gynradd Cyfrwng Cymraeg yn ardal leol Ysgol Gynradd Dolau (CYBLD 2024) | | | |
|---|---|---|---|
| | **Ysgol** | | |
| | **Ysgol Llanhari (adran gynradd)** | **Ysgol Gynradd Gymunedol Gymraeg Llantrisant** | **Ysgol Gynradd Gymraeg Tonyrefail** |
| **Pellter o Ysgol Gynradd Dolau (milltiroedd)** | 2.6 milltir | 5.6 milltir | 7.4 milltir |
| **Disgyblion Oed Ysgol Statudol** | 151 | 193 | 170 |
| **Capasiti Disgyblion Oed Ysgol Statudol (Nifer)** | 203 | 324 | 328 |
| **Capasiti Disgyblion Oed Ysgol Statudol sydd dros ben (Nifer)** | 52 | 131 | 158 |
| **Capasiti Disgyblion Oed Ysgol Statudol (canran %)** | 25.6% | 40.4% | 48.2% |
| **Disgyblion oed meithrin** | 25 | 24 | 25 |

Mae'r data'n dangos:

- Mae cyfanswm o 25.6% o leoedd gwag yn Ysgol Llanhari (adran gynradd) ar gyfer disgyblion oedran ysgol statudol.
- Mae cyfanswm o 40.4% o leoedd gwag dros ben yn Ysgol Gynradd Gymunedol Gymraeg Llantrisant ar gyfer disgyblion oedran ysgol statudol.
- Mae cyfanswm o 48.2% o leoedd gwag dros ben yn Ysgol Gynradd Gymraeg Tonyrefail ar gyfer disgyblion oedran ysgol statudol.

Yn sgil y datblygiadau tai yn yr ardal ac er mwyn darparu capasiti i ddarparu ar gyfer y galw am leoedd disgyblion yn yr ardal yma, cynigir bod ysgol cyfrwng Cymraeg newydd yn cael ei hagor a bod Ysgol Gynradd Dolau yn dod yn ysgol cyfrwng Saesneg i alluogi addysg cyfrwng Saesneg a Chymraeg yn y rhan yma o'r Fwrdeistref Sirol i dyfu a sicrhau bod y Cyngor yn cyflawni ei ddyletswydd statudol i ddarparu digon o leoedd ysgol.

Yn ogystal â hyn, bydd sefydlu ysgol cyfrwng Cymraeg yn yr ardal yma'n cynorthwyo'r Cyngor i gyrraedd targedau hynod uchelgeisiol y Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg ar gyfer 2022-2032 a gweledigaeth Cymraeg 2050 Llywodraeth Cymru.

**Cefndir i'r cynnig**

Ar 20 Medi 2018, cymeradwyodd Cabinet y Cyngor ddechrau ymgynghoriad ar gynnig i gynyddu capasiti Ysgol Gynradd Dolau ac adeiladu estyniad newydd i'r ysgol bresennol yn rhan o ddatblygiad tai Llanilid erbyn 1 Medi 2021. Dechreuodd yr ymgynghoriad statudol ar 1 Hydref 2018 a daeth i ben ar 9 Ebrill 2019, gyda Chabinet y Cyngor yn cytuno i weithredu'r cynnig i gynyddu capasiti Ysgol Gynradd Dolau ac adeiladu estyniad newydd i'r ysgol bresennol.

O ystyried yr oedi a brofwyd gan y datblygwr tai wrth symud y datblygiad ysgol newydd yn ei flaen, yn unol â Chod Trefniadaeth Ysgolion Llywodraeth Cymru (2il Rifyn) (011/2018), roedd y Cyngor wedi rhedeg allan o amser o ran bwrw ymlaen â'r cynigion trefniadaeth ysgolion a doedd hi ddim yn bosibl agor yr ysgol newydd yn unol â'r amserlenni diffiniedig.

Gan nad yw'r cynnig wedi'i roi ar waith fel y'i pennwyd neu fel y'i cymeradwywyd, bydd y Cyngor cynnal ymgynghoriad arall ac mae'n dymuno ceisio barn rhanddeiliaid ar y cynnig i sefydlu ysgol gynradd cyfrwng Cymraeg newydd ar gyfer plant 3 i 11 oed yn rhan o ddatblygiad tai Llanilid a'r cynnig i newid cyfrwng iaith Ysgol Gynradd Dolau o ysgol sydd â dwy ffrwd iaith i ysgol cyfrwng Saesneg. Cynigir y bydd yr ysgol gynradd cyfrwng Cymraeg newydd yn agor erbyn blwyddyn academaidd 2027, gyda lle i 480 o ddisgyblion oedran ysgol statudol a 60 o leoedd meithrin, gydag Ysgol Gynradd Dolau yn dod yn ysgol gynradd cyfrwng Saesneg ar yr un pryd, gyda lle i 488 o ddisgyblion oedran ysgol statudol ynghyd â 63 o leoedd meithrin.

**Datblygu Tai Newydd**

Mae Cynllun Datblygu Lleol (CDLl) yn rhoi strategaeth defnydd tir a datblygiad cyffredinol i Gynghorau, yn ogystal â fframwaith polisi a dyraniadau sy'n benodol i safle ar gyfer ystod o fathau datblygu. Mae CDLl, ochr yn ochr â chynlluniau a pholisïau cenedlaethol, yn ganllaw ar gyfer gwneud penderfyniadau ynghylch ceisiadau cynllunio.

Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf yn paratoi CDLl Diwygiedig ar gyfer y blynyddoedd 2022 i 2037. Dechreuodd y broses yma'n ffurfiol ym mis Ebrill 2022. Bydd y CDLl Diwygiedig yn disodli CDLl presennol y Cyngor ar gyfer y blynyddoedd 2006 i 2021 a'r Adroddiad Adolygu Drafft dilynol a gafodd ei gymeradwyo gan Gabinet y Cyngor yn 2019. Bydd CDLl presennol y Cyngor a'r Adroddiad Adolygu Drafft dilynol yn parhau mewn grym hyd nes y caiff y CDLl Diwygiedig ei fabwysiadu.

Yng Nghynllun Datblygu Lleol presennol y Cyngor a'r Adroddiad Adolygu Drafft dilynol, cafodd tir a ddyrannwyd yn rhan o safle'r hen lo brig yn Llanharan ei nodi fel safle allweddol.

Yn rhan o waith paratoi CDLl Diwygiedig ar gyfer y blynyddoedd 2022 i 2037, mae Strategaeth a Ffefrir wedi'i lunio ac yn mynd trwy broses ymgynghori ar hyn o bryd. Mae'r Strategaeth a Ffefrir yn ceisio mynd i'r afael ag anghenion y Cyngor drwy gynnig lefelau o dwf o ran tai a chyflogaeth a lle y dylai hyn gael ei ddosbarthu ledled RhCT, gan gynnwys nodi safleoedd allweddol. Caiff y tir a ddyrannwyd yn rhan o safle'r hen lo brig yn Llanharan ei nodi yn y Strategaeth a Ffefrir fel un o'r safleoedd allweddol posibl o hyd.

Ym mis Ionawr 2016, cymeradwyodd Pwyllgor Cynllunio a Datblygu'r Cyngor ganiatâd cynllunio amlinellol ar gyfer tir a ddyrannwyd yn rhan o safle'r hen lo brig yn Llanharan ar gyfer adeiladu rhwng 1,850 o dai newydd, arwynebedd llawr ar gyfer manwerthu, canolfan feddygol, llyfrgell/cyfleuster cymunedol, ysgol gynradd newydd a man agored cyhoeddus cysylltiedig.

Er mwyn sicrhau bod modd bodloni'r galw am leoedd ysgol yn y dyfodol, y cynnig yw sefydlu Ysgol Gynradd cyfrwng Cymraeg newydd ar gyfer plant 3-11 oed yn rhan o ddatblygiad tai Llanilid a'r cynnig i newid cyfrwng iaith Ysgol Gynradd Dolau o ysgol sydd â dwy ffrwd iaith i Ysgol cyfrwng Saesneg. Cynigir y bydd yr ysgol gynradd cyfrwng Cymraeg newydd yn agor erbyn blwyddyn academaidd 2027, gyda lle i 480 o ddisgyblion oedran ysgol statudol a 60 o leoedd meithrin, gydag Ysgol Gynradd Dolau yn dod yn ysgol gynradd cyfrwng Saesneg ar yr un pryd.

## Opsiynau eraill a gafodd eu hystyried

Yn unol â Chod Trefniadaeth Ysgolion Llywodraeth Cymru (2il Rifyn) (011/2018), cafodd opsiynau eraill eu nodi a'u hystyried yn ofalus. Mae rhai buddion ac anfanteision pob opsiwn a gafodd ei ddiystyru i'w gweld yn y tabl canlynol:

| **Opsiwn** | **Buddion** | **Anfanteision** |
|---|---|---|
| Cadw pethau fel y maen nhw. | • Dim angen buddsoddiad Cynllun Cymunedau Cynaliadwy ar gyfer Dysgu Llywodraeth Cymru.<br>• Dim angen buddsoddiad gan y Cyngor.<br>• Dim amharu ar ddisgyblion, rhieni/gwarcheidwaid na staff. | • Fydd y galw cynyddol am leoedd disgyblion cynradd, o ganlyniad i ddatblygiad tai Llanilid, ddim yn cael ei fodloni.<br>• Bydd mwy o alw am leoedd na'r hyn sydd ar gael yn Ysgol Gynradd Dolau, o ganlyniad i ddatblygiad tai Llanilid.<br>• Fydd y Cyngor ddim yn gwella addysg cyfrwng Cymraeg ac addysg Gymraeg a chynyddu nifer y disgyblion mewn addysg cyfrwng Cymraeg.<br>• Fydd dim cyfleoedd i ragor o ddisgyblion gael eu haddysgu drwy gyfrwng y Gymraeg a bydd targedau'r Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg yn her i'w cyflawni. |
| Adeiladu ysgol gynradd â dwy ffrwd iaith newydd ar gyfer plant 3 i 11 oed yn rhan o ddatblygiad tai Llanilid. | • Bydd y galw cynyddol am leoedd disgyblion cynradd, o ganlyniad i ddatblygiad tai Llanilid, yn cael ei fodloni.<br>• Bydd y Cyngor yn gwella addysg cyfrwng Cymraeg ac addysg Gymraeg a chynyddu nifer y disgyblion mewn addysg cyfrwng Cymraeg. Bydd cyllid Ardoll Seilwaith Cymunedol yn cyfrannu at y cynnig yma. | • Bydd angen buddsoddiad Cynllun Cymunedau Cynaliadwy ar gyfer Dysgu Llywodraeth Cymru.<br>• Bydd targedau'r Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg yn her i'w cyflawni.<br>• Ni fydd yn bosibl cael cyfrifiad capasiti ar wahân ar gyfer niferoedd y ffrwd Gymraeg mewn ysgol â dwy ffrwd iaith, a gallai nifer y disgyblion sy'n cael mynediad i addysg cyfrwng Saesneg arwain at lai o leoedd cyfrwng Cymraeg. |
| Adeiladu ysgol gynradd cyfrwng Saesneg newydd ar gyfer disgyblion 3 i 11 oed yn rhan o ddatblygiad tai Llanilid a'r cynnig i newid cyfrwng iaith Ysgol Gynradd | • Bydd y galw cynyddol am leoedd disgyblion cynradd, o ganlyniad i ddatblygiad tai Llanilid, yn cael ei fodloni.<br>• Bydd y Cyngor yn cynyddu nifer y disgyblion mewn | • Bydd angen buddsoddiad Cynllun Cymunedau Cynaliadwy ar gyfer Dysgu Llywodraeth Cymru.<br>• Nid yw'r Cynnig yn cyd-fynd â deilliannau nac ymrwymiadau Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg y Cyngor. |

| Opsiwn | Buddion | Anfanteision |
| --- | --- | --- |
| Dolau o ysgol sydd â dwy ffrwd iaith i ysgol cyfrwng Cymraeg. | addysg cyfrwng Cymraeg.<br>• Bydd yr ysgol newydd yn cael ei hadeiladu yn unol â Bwletin Adeiladu 99, bydd yn gwbl hygyrch ac yn cydymffurfio â Deddf Cydraddoldeb 2010. Bydd yr ysgol hefyd yn cael ei hadeiladu i safonau 'rhagorol' BREEAM ac yn cyflawni Carbon Sero-Net o ran ei gweithredu. Bydd ganddi sgôr Tystysgrif Perfformiad Ynni gradd A a gwefrwyr cerbydau trydan ar y safle, gan gyfrannu at gyflawni Strategaeth Mynd i'r Afael â Newid yn yr Hinsawdd y Cyngor: 2022 i 2025 – Hinsawdd Ystyriol Rhondda Cynon Taf.<br>• Byddai'r cynnig hefyd yn ategu Cynllun Cyflawni Llywodraeth Cymru ar gyfer Cymru Carbon Isel a'i 'Drywydd' i ddatgarboneiddio'r sector cyhoeddus yng Nghymru.<br>• Bydd ardal benodol yn cael ei dylunio yn yr ysgol newydd fel bod modd i'r gymuned leol a thrydydd partïon ddefnyddio cyfleusterau'r ysgol yn ddiogel, a hynny yn ystod y diwrnod ysgol ac ar ei ôl.<br>• Bydd y safle ysgol gynradd cyfrwng | • Bydd targedau'r Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg yn fwy heriol i'w cyflawni. |

| Opsiwn | Buddion | Anfanteision |
| --- | --- | --- |
| | Saesneg newydd yn cael ei ddylunio i gydymffurfio â safonau 'Diogelu Drwy Ddylunio' a fydd yn sicrhau bod ffin ac adeiladau'r ysgol yn cael eu diogelu'n llawn gyda theledu cylch cyfyng. Bydd perimedr y safle yn ddiogel, yn atal ymddygiad gwrthgymdeithasol ac yn atal unigolion heb awdurdod rhag cael mynediad at y safle y tu allan i oriau ysgol.<br>• Bydd yr ysgol gynradd newydd yn sicrhau y bydd y galw cynyddol am leoedd disgyblion cynradd, o ganlyniad i ddatblygiad tai Llanilid, yn cael ei fodloni.<br>• Bydd y cynnig yn agos iawn at safle presennol Ysgol Gynradd Dolau, gyda'r posibilrwydd o rannu mannau chwarae awyr agored.<br>• Bydd agosrwydd yr ysgol newydd yn lleihau anawsterau pontio posibl wrth symud o un safle ysgol i un arall.<br>• Bydd rhywfaint o barhad yn y perthnasoedd sydd wedi'u hen sefydlu rhwng teuluoedd a staff ysgol.<br>• Bydd cyfleoedd recriwtio yn y ddwy ysgol a mwy o gyfle ar gyfer dilyniant staff a datblygiad proffesiynol. | |

| Opsiwn | Buddion | Anfanteision |
|---|---|---|
| | • Bydd cyllid Ardoll Seilwaith Cymunedol yn cyfrannu at y cynnig yma. | |
| Adeiladu ysgol gynradd cyfrwng Cymraeg newydd ar gyfer plant 3 i 11 oed yn rhan o ddatblygiad tai Llanilid a bod Ysgol Gynradd Dolau yn parhau'n ysgol â dwy ffrwd iaith. | • Bydd y galw cynyddol am leoedd disgyblion cynradd, o ganlyniad i ddatblygiad tai Llanilid, yn cael ei fodloni.<br>• Bydd Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf yn cynyddu nifer y disgyblion mewn addysg cyfrwng Cymraeg.<br>• Bydd yr ysgol newydd yn cael ei hadeiladu yn unol â Bwletin Adeiladu 99, bydd yn gwbl hygyrch ac yn cydymffurfio â Deddf Cydraddoldeb 2010. Bydd hefyd yn cael ei hadeiladu i safonau 'rhagorol' BREEAM ac yn cyflawni Carbon Sero-Net o ran ei gweithredu. Bydd ganddi sgôr Tystysgrif Perfformiad Ynni gradd A a gwefrwyr cerbydau trydan ar y safle, gan gyfrannu at gyflawni Strategaeth Mynd i'r Afael â Newid yn yr Hinsawdd y Cyngor: 2022 i 2025 – Hinsawdd Ystyriol Rhondda Cynon Taf.<br>• Byddai'r cynnig yn ategu Cynllun Cyflawni Llywodraeth Cymru ar gyfer Cymru Carbon Isel a'i 'Drywydd' i ddatgarboneiddio'r sector cyhoeddus yng Nghymru. | • Bydd angen buddsoddiad Cynllun Cymunedau Cynaliadwy ar gyfer Dysgu Llywodraeth Cymru.<br>• Byddai gan yr ysgol gynradd cyfrwng Cymraeg newydd a'r ffrwd Gymraeg yn Ysgol Gynradd Dolau yr un dalgylch yn union. Byddai hyn yn achosi problemau wrth reoli trefniadau derbyn a rhoi'r blaenoriaethau ceisiadau ar waith pan fo gormod o alw.<br>• Fydd y galw cynyddol am leoedd disgyblion cynradd cyfrwng Saesneg, o ganlyniad i ddatblygiad tai Llanilid, ddim yn cael ei fodloni.<br>• Fyddai Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf ddim yn bodloni ei gyfrifoldeb statudol i ddarparu digon o leoedd cyfrwng Saesneg i ddisgyblion yn yr ardal a chynnig dewis i rieni, un o egwyddorion sylfaenol y Cod Derbyn i Ysgolion. |

| Opsiwn | Buddion | Anfanteision |
|---|---|---|
| | • Bydd ardal benodol yn cael ei dylunio yn yr ysgol newydd fel bod modd i'r gymuned leol a thrydydd partïon ddefnyddio cyfleusterau'r ysgol yn ddiogel, a hynny yn ystod y diwrnod ysgol ac ar ei ôl.<br>• Bydd y safle ysgol gynradd cyfrwng Cymraeg newydd yn cael ei ddylunio i gydymffurfio â safonau 'Diogelu Drwy Ddylunio' a fydd yn sicrhau bod ffin ac adeiladau'r ysgol yn cael eu diogelu'n llawn gyda theledu cylch cyfyng. Bydd perimedr y safle yn ddiogel, yn atal ymddygiad gwrthgymdeithasol ac yn atal unigolion heb awdurdod rhag cael mynediad at y safle y tu allan i oriau ysgol.<br>• Bydd y cynnig yn agos iawn at safle presennol Ysgol Gynradd Dolau, gyda'r posibilrwydd i rannu mannau chwarae awyr agored.<br>• Bydd cael yr ysgol newydd gerllaw yn lleihau anawsterau pontio posibl wrth symud o un safle ysgol i un arall.<br>• Bydd rhywfaint o barhad yn y berthynas sy'n bodoli eisoes rhwng teuluoedd a staff yr ysgol.<br>• Bydd rhagor o swyddi yn y ddwy ysgol a | |

| Opsiwn | Buddion | Anfanteision |
|---|---|---|
| | rhagor o gyfleoedd o ran dilyniant i staff ac i ddatblygu'n broffesiynol.<br>• Bydd cyllid Ardoll Seilwaith Cymunedol yn cyfrannu at y cynnig yma. | |

**Buddion ac anfanteision, risgiau a ffactorau lliniaru**

Mae'n anochel y bydd unrhyw gynnig sy'n ymwneud ag ad-drefnu ysgolion yn achosi rhywfaint o darfu ac ansicrwydd. Serch hynny, mae profiad yn dangos bod modd achosi cyn lleied o darfu â phosibl trwy ymgysylltu ystyrlon trwy gydol y broses ymgynghori statudol yma ar drefniadaeth ysgolion, ac os gwneir penderfyniad i fwrw ymlaen â'r cynnig, drwy gydol y broses weithredu.

Mae buddion ac anfanteision y cynnig i'w gweld yn y tabl canlynol, yn ogystal â gwybodaeth o ran sut y mae modd lliniaru unrhyw risgiau a nodir.

| Buddion |
|---|
| Bydd yr ysgol gynradd cyfrwng Cymraeg newydd yn cael ei hadeiladu yn unol â Bwletin Adeiladu 99 , bydd yn gwbl hygyrch ac yn cydymffurfio â Deddf Cydraddoldeb 2010. |
| Bydd yr ysgol cyfrwng Cymraeg newydd yn:<br><br>• Cael ei hadeiladu i safonau 'rhagorol' BREEAM.<br>• Cyflawni Carbon Sero-Net o ran ei gweithredu.<br>• Meddu ar sgôr Tystysgrif Perfformiad Ynni o A.<br>• Cynnwys gwefrwyr Cerbydau Trydan ar y safle, gan gyfrannu at gyflawni Strategaeth Mynd i'r Afael â'r Newid yn yr Hinsawdd Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf: 2022 i 2025 – Hinsawdd Ystyriol Rhondda Cynon Taf.<br><br>Byddai'r cynnig yma hefyd yn cefnogi Cynllun Cyflawni Llywodraeth Cymru ar gyfer Cymru Carbon Isel a'i 'Drywydd' i ddatgarboneiddio'r sector cyhoeddus yng Nghymru. |
| Bydd ardal benodol yn cael ei dylunio yn yr ysgol gynradd cyfrwng Cymraeg newydd fel bod modd i'r gymuned leol a thrydydd partïon ddefnyddio cyfleusterau'r ysgol yn ddiogel, a hynny yn ystod y diwrnod ysgol ac ar ei ôl. |
| Bydd safle'r ysgol gynradd cyfrwng Cymraeg newydd yn cael ei ddylunio i gydymffurfio â safonau 'Diogelu Drwy Ddylunio' a fydd yn sicrhau bod ffin ac adeiladau'r ysgol yn cael eu diogelu'n llawn gyda theledu cylch cyfyng. Bydd perimedr y safle yn ddiogel, yn atal ymddygiad gwrthgymdeithasol ac yn atal unigolion heb awdurdod rhag cael mynediad at y safle y tu allan i oriau ysgol. |
| Bydd y cynnig yn sicrhau y bydd y galw cynyddol am leoedd disgyblion cynradd cyfrwng Cymraeg a chyfrwng Saesneg, o ganlyniad i ddatblygiad tai Llanilid, yn cael ei fodloni. |
| Bydd y cynnig yn agos iawn at safle presennol Ysgol Gynradd Dolau, gyda'r posibilrwydd o rannu mannau chwarae awyr agored. |

| |
|---|
| Bydd agosrwydd yr ysgol newydd yn lleihau anawsterau pontio posibl wrth symud o un safle ysgol i un arall. |
| Bydd rhywfaint o barhad yn y perthnasoedd sydd wedi'u hen sefydlu rhwng teuluoedd a staff ysgol. |
| Bydd cyfleoedd recriwtio yn y ddwy ysgol a mwy o gyfle ar gyfer dilyniant staff a datblygiad proffesiynol. |
| Bydd yr ysgol gynradd cyfrwng Cymraeg newydd yn cael effaith gadarnhaol ar bobl ifainc o bob oed. O ganlyniad i'r cynnig, disgwylir i Gyngor Rhondda Cynon Taf wella addysg cyfrwng Cymraeg ac addysg Gymraeg a chynyddu nifer y disgyblion mewn addysg cyfrwng Cymraeg. |
| Bydd yr ysgol gynradd cyfrwng Cymraeg newydd yn cefnogi targedau uchelgeisiol Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg y Cyngor a'r twf o ran addysg Gymraeg. |
| Bydd yr ysgol cyfrwng Cymraeg newydd yn cefnogi strategaeth Cymraeg 2050 - Miliwn o Siaradwyr Cymraeg Llywodraeth Cymru. |
| Bydd agor ysgol cyfrwng Cymraeg benodedig newydd nid yn unig yn cynyddu'r cynnig cyfrwng Cymraeg yn yr ardal ond hefyd yn diogelu'r lleoedd cyfrwng Cymraeg hynny i ddisgyblion, sydd ddim yn bosibl mewn ysgol â dwy ffrwd iaith. |
| Mae cyllid Ardoll Seilwaith Cymunedol wedi'i sicrhau i gyfrannu at y cynnig yma. |
| **Anfanteision** |
| Yn ddealladwy, mae'n bosibl y bydd rhai disgyblion yn teimlo'n ofnus ynghylch y posibilrwydd o symud i ysgol newydd ar safle newydd. Serch hynny, pe bai'r cynnig yn mynd rhagddo, bydd cymorth wedi'i dargedu ar gyfer yr holl ddisgyblion o Ysgol Gynradd Dolau. Mae pontio cadarnhaol ac ystyrlon yn rhan allweddol o sicrhau bod disgyblion yn ymgartrefu yn eu hysgol newydd heb darfu ar eu lles a'u haddysg. Caiff hyn ei gefnogi trwy ddarparu cymorth academaidd a bugeiliol effeithiol a chyfleoedd strwythuredig er mwyn i ddisgyblion ymgyfarwyddo ag amgylchedd yr ysgol newydd a'r staff. |
| Mae'n bosibl y bydd goblygiadau staffio i'r rhai sy'n cael eu cyflogi yn Ysgol Gynradd Dolau, pe bai'r ysgol yn dod yn ysgol gynradd cyfrwng Saesneg. Er enghraifft, efallai y bydd rhai staff am barhau i addysgu mewn ysgol gynradd cyfrwng Cymraeg. Mae gyda'r Cyngor bolisïau a gweithdrefnau Adnoddau Dynol cadarn a fydd yn rhoi sicrwydd i staff a chyflogwyr ynglŷn â rheoli newid sefydliadol. Bydd Carfan Adnoddau Dynol y Cyngor yn ymweld â phob aelod o staff Ysgol Gynradd Dolau a'u gwneud nhw i gyd yn effro i'r prosesu sydd ar ddod a'r holl gymorth sydd ar gael. |
| Bydd buddsoddiad ariannol sylweddol yn ymwneud â'r cynnig yma a bydd angen buddsoddiad Cymunedau Cynaliadwy ar gyfer Dysgu Llywodraeth Cymru. |

| **Risgiau** | **Tebygolrwydd** | **Effaith** | **Camau Lliniaru** |
|---|---|---|---|
| **Cymeradwyaeth** – Rhieni/gwarcheidwaid yn dewis anfon eu plant i ysgol arall | Isel | Isel | • Bydd Carfan Ysgolion yr $21^{ain}$ Ganrif Cyfarwyddiaeth Addysg a Gwasanaethau Cynhwysiant y Cyngor yn gofalu bod trefniadau addas yn cael eu gwneud i gynnwys rhieni/gwarcheidwaid a phlant a phobl ifainc yn gyfranogwyr gweithredol trwy gydol y broses ymgynghori statudol yma ar drefniadaeth ysgol ac, |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | | os penderfynir bwrw ymlaen â'r cynnig, drwy gydol y broses weithredu hefyd.<br>• Dewis y rhiant/gwarcheidwad/cynhaliwr (gofalwr) yw ysgol y plentyn. Byddwn ni'n ymdrin â cheisiadau yn unol â Deddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013 Llywodraeth Cymru. |
| **Cynnydd o ran Traffig** – Cynnydd o ran traffig o ganlyniad i'r cynnig. | Isel | Isel | • Bydd yr ysgol gynradd cyfrwng Cymraeg newydd yn canolbwyntio ar drefniadau rheoli traffig ar y safle ac oddi ar y safle, gan gynnwys parcio i staff a chreu man gollwng bwrpasol ar gyfer cludiant o'r cartref i'r ysgol.<br>• O ran trafnidiaeth gyhoeddus, mae bws gwasanaeth trafnidiaeth gyhoeddus sy'n rhedeg yn rheolaidd. Serch hynny, dydy cost a gweithredu trafnidiaeth gyhoeddus yn yr ardal ddim yn rhan o gylch gwaith y Cyngor. |
| **Staff** – Efallai y bydd staff presennol Ysgol Gynradd Dolau yn dymuno parhau i addysgu mewn ysgol gynradd cyfrwng Cymraeg. | Canolig | Canolig | • Mae gyda'r Cyngor bolisïau a gweithdrefnau Adnoddau Dynol cadarn a fydd yn rhoi sicrwydd i staff a chyflogwyr ynglŷn â rheoli newid sefydliadol.<br>• Bydd Carfan Adnoddau Dynol y Cyngor yn ymweld â phob aelod o staff Ysgol Gynradd Dolau a'u gwneud nhw i gyd yn effro i'r prosesu sydd ar ddod a'r holl gymorth sydd ar gael. |

## Ble hoffen ni fod...

Cynigir sefydlu ysgol gynradd cyfrwng Cymraeg newydd ar gyfer disgyblion 3 i 11 oed yn rhan o ddatblygiad tai Llanilid a'r cynnig i newid cyfrwng iaith Ysgol Gynradd Dolau o ysgol sydd â dwy ffrwd iaith i ysgol cyfrwng Saesneg. Cynigir y bydd yr ysgol gynradd cyfrwng Cymraeg newydd yn agor erbyn blwyddyn academaidd 2027, gyda lle i 480 o ddisgyblion oedran ysgol statudol a 60 o leoedd meithrin, gydag Ysgol Gynradd Dolau yn dod yn ysgol gynradd cyfrwng Saesneg ar yr un pryd, gyda chapasiti mwy i 488 o ddisgyblion oedran ysgol statudol a 63 o leoedd meithrin.

Bydd yr ysgol gynradd cyfrwng Cymraeg newydd yn cael ei hadeiladu yn unol â Bwletin Adeiladu 99 , bydd yn gwbl hygyrch ac yn cydymffurfio â Deddf Cydraddoldeb 2010. Bydd y ddarpariaeth yn yr ysgol gynradd cyfrwng Cymraeg newydd yn cynnwys:

- Amgylcheddau dysgu modern a hyblyg i'r holl ddisgyblion, neuadd/ardal giniawa fawr, ardal adnoddau dysgu amlbwrpas a chyfleusterau cwbl hygyrch.
- Mannau hyblyg i ganiatáu cyflwyno'r meysydd dysgu a phrofiad yn unol â'r Cwricwlwm i Gymru.
- Ardaloedd dan do ac awyr agored i'r gymuned leol eu defnyddio.
- Rhywfaint o le ychwanegol ar gyfer ymyraethau anghenion dysgu ychwanegol (ADY).
- Mannau awyr agored gwell i gefnogi'r ystod lawn o weithgareddau'r cwricwlwm.
- Mesurau rheoli traffig gwell.

Yn ogystal â hyn, bydd yr ysgol gynradd cyfrwng Cymraeg newydd yn gweithredu'n ysgol Carbon Sero-Net.

Mae Ysgol Gynradd Dolau yn ysgol gymunedol gyda darparwr gofal plant preifat wedi'i gydleoli ar safle'r ysgol. Mae Gofal Plant Flourish Cymru wedi'i gofrestru gydag Arolygiaeth Gofal Cymru ar gyfer 24 o leoedd.

Pe bai'r cynnig yn mynd rhagddo, bydd y Cyngor yn ystyried sefydlu Cylch Meithrin newydd wedi'i gydleoli ar safle'r ysgol gynradd cyfrwng Cymraeg newydd i gynnig sesiynau Cylch Meithrin cyn ysgol i blant dwy i dair oed. Rhagwelir y bydd sefydlu Cylch Meithrin newydd wedi'i gydleoli ar safle'r ysgol gynradd cyfrwng Cymraeg newydd yn annog niferoedd disgyblion i dyfu.

**Lluniau o Ysgolion yr 21ain Ganrif**

Mae'r lluniau sy'n dilyn yn dangos enghreifftiau o ysgolion yr 21ain ganrif sydd wedi'u darparu gan y Cyngor yn y blynyddoedd diwethaf.

| |
|---|
|  |
| *Ystafell Ddosbarth* |
|  |
| *Man canolog* |
|  |
| *Neuadd* |

## Darpariaeth Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY)

Roedd arolwg Estyn diweddaraf Ysgol Gynradd Dolau, ym mis Hydref 2023, yn nodi fod gan yr ysgol systemau cadarn i gefnogi disgyblion ag ADY. O ganlyniad, mae rhan fwyaf y disgyblion ag ADY yn gwneud cynnydd cryf o'u mannau cychwyn unigol. Mae Ysgol Gynradd Dolau yn cydweithio'n dda â lleoliadau cyn-ysgol ac asiantaethau allanol ac, o ganlyniad, caiff disgyblion sydd angen cymorth ychwanegol eu nodi'n gynnar. Mae staff yn gweithio'n agos gyda disgyblion a rhieni/gwarcheidwaid i gynllunio'r rhaglenni cymorth mwyaf priodol ar gyfer anghenion disgyblion unigol. Er enghraifft, defnyddir holiaduron disgyblion a rhieni/gwarcheidwaid i lywio ymhellach ddealltwriaeth y staff o anghenion disgyblion.

Mae'n nodi bod y berthynas rhwng staff a rhieni/gwarcheidwaid yn dda iawn. Caiff gofynion cymorth dysgu eu nodi'n bwrpasol ar gyfer pob disgybl a'u cyflwyno gan staff hynod ymroddedig. Mae'r Cydlynydd ADY yn Ysgol Gynradd Dolau yn monitro effaith rhaglenni cymorth yn ofalus i sicrhau eu bod yn bodloni anghenion dysgu a lles disgyblion. O ganlyniad, mae gan Ysgol Gynradd Dolau ddealltwriaeth dda o effaith y cymorth a roddir ac mae'n addasu'r cymorth yn gyflym pan fo angen.
Does dim Dosbarthiadau Cymorth Dysgu yn Ysgol Gynradd Dolau. Mae gan Ysgol Gynradd Dolau 12 o ddisgyblion ag ADY, ac nid oes gan yr un ohonyn nhw anghenion corfforol. Pe bai'r cynnig yn mynd rhagddo, bydd cymorth i ddisgyblion a gaiff ei ddarparu gan garfan Gwasanaeth Mynediad a Chynhwysiant y Cyngor yn parhau ac ni fydd yn cael ei effeithio.

Bydd yr ysgol gynradd cyfrwng Cymraeg newydd yn cael ei hadeiladu yn unol â Bwletin Adeiladu 99, bydd yn gwbl hygyrch ac yn cydymffurfio â Deddf Cydraddoldeb 2010, gan gynnwys bod â darpariaethau megis ystafelloedd hylendid ar gyfer y rhai y gallai fod angen eu defnyddio. Mae'r Ddeddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018 yn ei gwneud yn ofynnol i Gynghorau adolygu'u trefniadau ar gyfer cefnogi disgyblion ag ADY yn eu hardal yn barhaus ac ystyried a yw'r trefniadau'n ddigonol. O'r herwydd, bydd yr angen am Ddosbarth Cymorth Dysgu ADY yn Ysgol Gynradd Dolau a'r ysgol gynradd cyfrwng Cymraeg newydd yn parhau i gael ei adolygu ac, os bernir bod angen amdano yn y dyfodol, bydd digon o gapasiti yn Ysgol Gynradd Dolau a'r ysgol gynradd cyfrwng Cymraeg newydd i gynnwys y Dosbarth Cymorth Dysgu ADY.

Yn ogystal, bydd yr ysgol gynradd cyfrwng Cymraeg newydd yn cael ei dylunio gyda mannau hyblyg i ganiatáu cyfleoedd ar gyfer addysgu a dysgu mewn grwpiau llai, mannau ar gyfer ymyrraeth, ac i ddarparu cymorth un i un lle bo angen.

## Y Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg

Rhaid i bob Cyngor yng Nghymru lunio Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg. Adnodd cynllunio iaith tymor hir yw'r Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg sy'n pennu'r cyfeiriad o ran cynllunio, cyflenwi a thwf strategol addysg cyfrwng Cymraeg a'r Gymraeg. Nod y Cyngor trwy'r Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg, a thrwy gynllunio strategol effeithiol a buddsoddi, yw cyfrannu'n sylweddol at gyflawni'r weledigaeth o filiwn o siaradwyr Cymraeg yng Nghymru erbyn 2050 fel sydd wedi'i nodi yn nogfen Cymraeg 2050. Mae modd bwrw golwg ar Gynllun

Strategol Cymraeg mewn Addysg y Cyngor a'i lawrlwytho o wefan y Cyngor drwy glicio ar y ddolen ganlynol:

https://www.rctcbc.gov.uk/CY/Resident/SchoolsandLearning/SchoolAdmissions/relateddocuments/WESPJune2022.pdf

Targed Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf:

Cynyddu canran y disgyblion blwyddyn 1 mewn addysg cyfrwng Cymraeg o 10% yn ystod oes deng mlynedd y Cynllun Strategol yma, gan gynyddu canran y disgyblion blwyddyn 1 sy’n cael eu haddysgu drwy gyfrwng y Gymraeg yn Rhondda Cynon Taf i 30%.

Yn ogystal â'r targed i gynyddu canran y disgyblion Blwyddyn 1 mewn addysg cyfrwng Cymraeg, mae'r Cynllun Strategol yn cynnwys saith deilliant neu faes sy'n nodi sut y mae disgwyl i Awdurdodau Lleol wella addysg cyfrwng Cymraeg a chyfrwng Saesneg yn eu hardal.

| | |
|---|---|
| **Deilliant 1:** | Mwy o ddisgyblion Meithrin / tair oed yn derbyn eu haddysg trwy gyfrwng y Gymraeg. |
| **Deilliant 2:** | Mwy o ddisgyblion dosbarth Derbyn / pump oed yn derbyn eu haddysg trwy gyfrwng y Gymraeg. |
| **Deilliant 3:** | Mwy o blant yn parhau i wella eu sgiliau iaith Gymraeg wrth bontio o un Cyfnod o'u haddysg statudol i un arall. |
| **Deilliant 4:** | Mwy o ddisgyblion yn astudio ar gyfer cymwysterau wedi'u hasesu yn y Gymraeg (y pwnc) a phynciau trwy gyfrwng y Gymraeg. |
| **Deilliant 5:** | Rhagor o gyfleoedd i ddisgyblion ddefnyddio'r Gymraeg mewn cyd-destunau gwahanol yn yr ysgol. |
| **Deilliant 6:** | Cynnydd yn narpariaeth addysg cyfrwng Cymraeg ar gyfer disgyblion ag ADY yn unol â'r dyletswyddau wedi'u pennu gan Ddeddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018. |
| **Deilliant 7:** | Cynyddu nifer y staff addysgu sy'n gallu addysgu'r Gymraeg (y pwnc) ac addysgu trwy gyfrwng y Gymraeg. |

Pe bai'r cynnig yn mynd rhagddo, bydd yn cael effaith gadarnhaol ar blant a phobl ifainc o bob oed. O ganlyniad i’r cynnig, disgwylir i Gyngor Rhondda Cynon Taf wella addysg cyfrwng Cymraeg ac addysg Gymraeg a chynyddu nifer y disgyblion mewn addysg cyfrwng Cymraeg. Bydd trosglwyddo disgyblion sy’n cael eu haddysgu trwy gyfrwng y Gymraeg ar hyn o bryd yn Ysgol Gynradd Dolau i ysgol gynradd cyfrwng Cymraeg newydd yn rhoi mwy o gyfleoedd i ragor o ddisgyblion gael eu haddysgu drwy gyfrwng y Gymraeg mewn amgylchedd sy’n addas i ddysgu ac addysgu yn yr 21ain ganrif.

Mae Carfan Trochi yn y Gymraeg y Cyngor yn darparu cymorth i ddisgyblion sy'n dewis symud i addysg cyfrwng Cymraeg o addysg cyfrwng Saesneg. Bydd y cymorth yma ar gael i unrhyw ddisgyblion sy'n dymuno ei ddefnyddio. Unwaith y bydd yr ysgol gynradd cyfrwng Cymraeg newydd yn agor ac Ysgol Gynradd Dolau yn dod yn ysgol gynradd cyfrwng Saesneg, bydd lle yn yr ysgol gynradd cyfrwng Cymraeg newydd ar gyfer unrhyw ddisgyblion yn Ysgol Gynradd Dolau sy’n

dymuno mynychu'r ysgol gynradd cyfrwng Cymraeg newydd yn lle parhau gydag addysg cyfrwng Saesneg yn Ysgol Gynradd Dolau.

Fel sy wedi'i nodi yng Nghod Trefniadaeth Ysgolion Llywodraeth Cymru (2il Rifyn) (011/2018), mae'n ofynnol inni gyhoeddi Asesiad Effaith ar y Gymraeg. Mae hwn wedi'i lunio ac mae wedi'i atodi i'r Ddogfen Ymgynghori yma. Mae hefyd ar gael ar wefan y Cyngor.

**Trefniadau Derbyn Disgyblion**

Os bydd rhagor o geisiadau yn dod i law na nifer y lleoedd sydd ar gael, mae meini prawf cyhoeddedig ar gyfer derbyn disgyblion yn cael ei weithredu o ran pob cais sy'n dod i law. Mae hyn yn cael ei wneud er mwyn pennu'r disgyblion sydd wedi bod yn llwyddiannus yn sicrhau'r lleoedd sydd ar gael. Dyma'r meini prawf sydd wedi'i nodi yn ôl blaenoriaeth yn llyfryn polisi derbyn disgyblion 'Dechrau'r Ysgol' y Cyngor:

| | |
|---|---|
| **Categori 1:** | Plant dan adain gofal y Cyngor (plant sy'n derbyn gofal cyhoeddus) a phlant sydd wedi bod dan adain gofal y Cyngor. |
| **Categori 2:** | Plant sy'n byw yn nalgylch yr ysgol, sydd â brawd neu chwaer hŷn sy'n ddisgybl yn yr ysgol honno, sy'n byw yn yr un cartref â nhw pan fydd y cais yn cael ei gyflwyno ac a fydd yn parhau i fynychu'r ysgol honno ar ddyddiad disgwyliedig derbyn y brawd neu chwaer iau. |
| **Categori 3:** | Plant sy'n byw yn nalgylch yr ysgol ond does dim brawd neu chwaer hŷn gyda nhw yn yr ysgol honno. |
| **Categori 4:** | Plant sy'n byw y tu allan i ddalgylch yr ysgol, sydd â brawd neu chwaer hŷn sy'n ddisgybl yn yr ysgol honno, sy'n byw yn yr un cartref â nhw pan fydd y cais yn cael ei gyflwyno ac a fydd yn parhau i fynychu'r ysgol honno ar ddyddiad disgwyliedig derbyn y brawd neu chwaer iau. |
| **Categori 5:** | Plant sy'n byw y tu allan i ddalgylch yr ysgol ac sydd heb frawd neu chwaer hŷn sy'n ddisgybl yn yr ysgol honno. |

Mae 'cartref' mewn perthynas â'r meini prawf uchod yn cyfeirio at leoliad/cyfeiriad penodol y cartref lle mae'r plentyn yn byw.

Bydd y plant yn cael eu derbyn i'r ysgol hyd at y Nifer Derbyn wedi'i Chyhoeddi, yn nhrefn y blaenoriaethau uchod. Os nad oes modd cynnig lle i bob un o'r ymgeiswyr o fewn unrhyw un o'r categorïau sydd wedi'u rhestru uchod, byddwn ni'n rhoi blaenoriaeth i blant sy'n byw agosaf at yr ysgol. Caiff y pellter ei fesur yn ôl y daith gerdded fwyaf diogel a byr rhwng drws blaen y cartref a'r giât agosaf sydd ar agor yn yr ysgol. Er mwyn bod yn gwbl sicr, mewn ardaloedd lle nad oes taith gerdded ddiogel yn ôl yr Awdurdod, bydd yr Awdurdod yn mesur y pellter yn ôl y daith gyrru fwyaf byr rhwng drws blaen y cartref a'r giât agosaf sydd ar agor yn yr ysgol. Bydd y pellter yma'n cael ei fesur gan ddefnyddio'r 'System MapInfo' yn unig. Fyddwn ni ddim yn rhoi ystyriaeth i unrhyw system arall. Yn achos rhieni/gwarcheidwaid sy'n rhannu cyfrifoldebau gofal am blentyn, y cyfeiriad ar gyfer talu Budd-dal Plant fydd y cyfeiriad i'w ystyried.

## Adran 2 – Effaith debygol y cynnig

**Sail addysgol y cynnig**

Dylai cynigion i newidiadau sefydliadol ysgolion dynnu sylw at y manteision addysgol y gallai unrhyw newid yn eu cynnig, yn arbennig mewn perthynas â gwella safonau'n gyffredinol, ond hefyd o ran datblygiad cymdeithasol ac emosiynol plant a phobl ifainc, a allai gael effaith ffafriol ar eu cyflawniad a'u deilliannau cyffredinol.

**Galw am Leoedd Ysgol**
Er mwyn sicrhau bod modd bodloni'r galw am leoedd ysgol yn y dyfodol, y cynnig yw sefydlu Ysgol Gynradd cyfrwng Cymraeg newydd ar gyfer plant 3-11 oed yn rhan o ddatblygiad tai Llanilid a'r cynnig i newid cyfrwng iaith Ysgol Gynradd Dolau o ysgol sydd â dwy ffrwd iaith i Ysgol cyfrwng Saesneg. Cynigir y bydd yr ysgol gynradd cyfrwng Cymraeg newydd yn agor erbyn blwyddyn academaidd 2027, gyda lle i 480 o ddisgyblion oedran ysgol statudol a 60 o leoedd meithrin, gydag Ysgol Gynradd Dolau yn dod yn ysgol gynradd cyfrwng Saesneg ar yr un pryd, gyda chapasiti mwy i 488 o ddisgyblion oedran ysgol statudol a 63 o leoedd meithrin.

Bydd y cynnig yma'n sicrhau y bydd modd i'r Cyngor fodloni ei gyfrifoldeb statudol i reoli lleoedd cyfrwng Cymraeg a chyfrwng Saesneg yn briodol i ddisgyblion yn yr ardal.

**Effaith ar Addysg Cyfrwng Cymraeg**
Bydd yr ysgol gynradd cyfrwng Cymraeg newydd yn cael effaith gadarnhaol ar blant a phobl ifainc o bob oed, gan alluogi'r Cyngor i weithio tuag at darged y Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg sef:

*Cynyddu canran y disgyblion blwyddyn 1 mewn addysg cyfrwng Cymraeg o 10% yn ystod oes deng mlynedd y Cynllun Strategol yma, gan gynyddu canran y disgyblion blwyddyn 1 sy'n cael eu haddysgu drwy gyfrwng y Gymraeg yn Rhondda Cynon Taf i 30%.*

O ganlyniad i'r cynnig, disgwylir i'r Cyngor wella addysg cyfrwng Cymraeg ac addysg Gymraeg a chynyddu nifer y disgyblion mewn addysg cyfrwng Cymraeg. Bydd trosglwyddo disgyblion sy'n cael eu haddysgu drwy gyfrwng y Gymraeg yn Ysgol Gynradd Dolau ar hyn o bryd i ysgol gynradd cyfrwng Cymraeg newydd yn darparu cyfleoedd gwell i ragor o ddisgyblion gael eu haddysgu drwy gyfrwng y Gymraeg mewn cyfleusterau newydd sbon.

Mae Carfan Trochi yn y Gymraeg y Cyngor yn darparu cymorth i ddisgyblion sy'n dewis symud i addysg cyfrwng Cymraeg o addysg cyfrwng Saesneg. Bydd y cymorth yma ar gael i unrhyw ddisgyblion sy'n dymuno ei ddefnyddio. Unwaith y bydd yr ysgol gynradd cyfrwng Cymraeg newydd yn agor ac Ysgol Gynradd Dolau yn dod yn ysgol gynradd cyfrwng Saesneg, bydd lle yn yr ysgol gynradd cyfrwng Cymraeg newydd ar gyfer unrhyw ddisgyblion yn Ysgol Gynradd Dolau sy'n dymuno mynychu'r ysgol gynradd cyfrwng Cymraeg newydd yn lle parhau gydag addysg cyfrwng Saesneg yn Ysgol Gynradd Dolau.

Pe bai'r cynnig yn mynd rhagddo, bydd y Cyngor yn ystyried sefydlu Cylch Meithrin newydd wedi'i gydleoli ar safle'r ysgol gynradd cyfrwng Cymraeg newydd i gynnig sesiynau Cylch Meithrin cyn ysgol i blant dwy i dair oed. Rhagwelir y gallai sefydlu Cylch Meithrin newydd wedi'i gydleoli ar safle'r ysgol gynradd cyfrwng Cymraeg newydd annog niferoedd disgyblion i dyfu. Bydd hyn yn helpu i sicrhau bod yr iaith yn ddi-dor o safbwynt addysg cyfrwng Cymraeg i blant rhwng 2 ac 11 oed ar un safle ysgol gynradd cyfrwng Cymraeg.

**Adeiladau Ysgol sy'n Addas ar gyfer yr 21ain Ganrif.**
Mae rhaglen moderneiddio ysgolion y Cyngor wedi bod yn gwneud cynnydd rhagorol o ran moderneiddio ei ystad ysgolion, ateb a rhesymoli'r galw am leoedd ysgol, sicrhau arbedion effeithlonrwydd, a sicrhau bod y portffolio addysg yn y sefyllfa orau bosibl i helpu'r Cyngor i gyflawni ei dargedau lleihau carbon. Mae'r cynnig yn adeiladu ar y cynnydd llwyddiannus a wnaed eisoes.

Bydd yr ysgol gynradd cyfrwng Cymraeg newydd yn cael ei hadeiladu yn unol â Bwletin Adeiladu 99 , bydd yn gwbl hygyrch ac yn cydymffurfio â Deddf Cydraddoldeb 2010. Bydd y ddarpariaeth yn yr ysgol gynradd cyfrwng Cymraeg newydd yn cynnwys:

- Amgylcheddau dysgu modern a hyblyg i'r holl ddisgyblion, neuadd/ardal giniawa fawr, ardal adnoddau dysgu amlbwrpas a chyfleusterau cwbl hygyrch.
- Mannau hyblyg i ganiatáu cyflwyno'r meysydd dysgu a phrofiad yn unol â'r Cwricwlwm i Gymru.
- Ardaloedd dan do ac awyr agored i'r gymuned leol eu defnyddio.
- Rhywfaint o le ychwanegol ar gyfer ymyriadau ADY.
- Mannau awyr agored gwell i gefnogi'r ystod lawn o weithgareddau'r cwricwlwm.
- Mesurau rheoli traffig gwell.

Yn ogystal â hyn, bydd yr ysgol gynradd cyfrwng Cymraeg newydd yn gweithredu'n ysgol Carbon Sero-Net.

**Gwybodaeth Estyn**
Cafodd Ysgol Gynradd Dolau ei harolygiad diwethaf gan Estyn ym mis Hydref 2023. Roedd yn arolygiad cadarnhaol iawn.

Argymhellodd Estyn un gwelliant i Ysgol Gynradd Dolau ei roi ar waith er mwyn codi ansawdd y ddarpariaeth addysg sydd ar gael. Roedd argymhelliad Estyn fel a ganlyn:

1. Argymhelliad Un – Rhannu arfer addysgu gorau yn arbennig i wella cyflymder gwersi a sgiliau holi athrawon.

Mae'r Cyngor o'r farn y gallai'r ysgol gynradd cyfrwng Cymraeg newydd ac Ysgol Gynradd Dolau, wrth ddod yn ysgol gynradd cyfrwng Saesneg, gael effaith gadarnhaol ar bob un o bum maes arolygu Estyn, fel y nodir isod:

1. **Safonau (Dysgu) (Addysgu a Dysgu)** – Bydd rhagor o ddisgyblion yn cael mynediad at adeilad ysgol newydd sy'n addas ar gyfer yr 21ain ganrif sy'n

darparu mannau addysgu gwell, ardaloedd pwrpasol ar gyfer adnoddau, amgylcheddau dysgu ysgogol ac offer TGCh o'r radd flaenaf. Bydd y rhain oll yn cefnogi parhad o ran codi safonau.

2. **Lles ac Agweddau at Ddysgu (Lles, Gofal, Cymorth ac Arweiniad)** – Bydd yr ysgol gynradd cyfrwng Cymraeg newydd yn cael ei hadeiladu yn unol â Bwletin Adeiladu 99, bydd yn gwbl hygyrch ac yn cydymffurfio â Deddf Cydraddoldeb 2010. Bydd y ddarpariaeth yn yr ysgol gynradd cyfrwng Cymraeg newydd yn cynnwys:

   - Amgylcheddau dysgu modern a hyblyg i'r holl ddisgyblion, neuadd/ardal giniawa fawr, ardal adnoddau dysgu amlbwrpas a chyfleusterau cwbl hygyrch.
   - Mannau hyblyg i ganiatáu cyflwyno'r meysydd dysgu a phrofiad yn unol â'r Cwricwlwm i Gymru.
   - Ardaloedd dan do ac awyr agored i'r gymuned leol eu defnyddio.
   - Rhywfaint o le ychwanegol ar gyfer ymyraethau ADY.
   - Mannau awyr agored gwell i gefnogi'r ystod lawn o weithgareddau'r cwricwlwm.
   - Mesurau rheoli traffig gwell.

   Yn ogystal â hyn, bydd yr ysgol gynradd cyfrwng Cymraeg newydd yn gweithredu'n ysgol Carbon Sero-Net.

3. **Profiadau Addysgu a Dysgu (Addysgu a Dysgu)** – Mae adeilad ysgol newydd sy'n addas ar gyfer yr 21ain ganrif yn helpu i ddarparu cwricwlwm cytbwys ar draws pob grŵp oedran yn unol â Chwricwlwm i Gymru. Byddai modd i amgylchedd dysgu'r 21ain ganrif hefyd roi rhagor o hyblygrwydd ac felly rhagor o ddewis ac amrywiaeth o ran profiadau dysgu'r disgyblion.

4. **Gofal, Cymorth ac Arweiniad (Lles, Gofal, Cymorth ac Arweiniad)** – Mae adeilad ysgol newydd sy'n addas ar gyfer yr 21ain ganrif yn helpu i ddarparu cwricwlwm cytbwys ar draws pob grŵp oedran yn unol â Chwricwlwm i Gymru. Gallai amgylchedd dysgu'r 21ain ganrif hefyd ddarparu mwy o hyblygrwydd ac felly mwy o ddewis ac amrywiaeth ym mhrofiadau dysgu disgyblion a darparu ystod ehangach o weithgareddau allgyrsiol i annog ffyrdd iach o fyw a meithrin disgyblion.

   Bydd ardal benodol yn cael ei dylunio yn yr ysgol gynradd cyfrwng Cymraeg newydd fel bod modd i'r gymuned leol a thrydydd partïon ddefnyddio cyfleusterau'r ysgol yn ddiogel, a hynny yn ystod y diwrnod ysgol ac ar ei ôl.

   Bydd safle'r ysgol gynradd cyfrwng Cymraeg newydd yn cael ei ddylunio i gydymffurfio â safonau 'Diogelu Drwy Ddylunio' a fydd yn sicrhau bod ffin ac adeiladau'r ysgol yn cael eu diogelu'n llawn gyda theledu cylch cyfyng. Bydd perimedr y safle yn ddiogel, yn atal ymddygiad gwrthgymdeithasol ac yn atal unigolion heb awdurdod rhag cael mynediad at y safle y tu allan i oriau ysgol.

5. **Arweinyddiaeth (a Rheoli) (Arwain a Gwella)** – Mae'n bwysig bod arweinyddiaeth (a rheoli) mewn ysgolion yn cael ei gefnogi gan adnoddau sy'n

addas ar gyfer yr 21ain ganrif sy'n darparu mannau addysgu gwell, ardaloedd pwrpasol ar gyfer adnoddau, amgylcheddau dysgu ysgogol ac offer TGCh o'r radd flaenaf. Bydd y rhain oll yn cefnogi parhad o ran codi safonau.

**Effaith debygol y cynnig ar ddisgyblion**

Rhagwelir na fydd y newidiadau arfaethedig yn cael effaith andwyol hirdymor ar ddisgyblion a dylid nodi ar yr adeg yma yn y broses ymgynghori statudol ar drefniadaeth ysgolion bod y Cyngor yn ystyried bod effaith gyffredinol y cynnig ar ddisgyblion yn gadarnhaol. Yn ddealladwy, mae'n bosibl y bydd rhai disgyblion yn teimlo'n ofnus ynghylch y posibilrwydd o symud i ysgol newydd ar safle newydd. Serch hynny, pe bai'r cynnig yn mynd rhagddo, bydd cymorth wedi'i dargedu ar gyfer yr holl ddisgyblion o Ysgol Gynradd Dolau. Mae pontio cadarnhaol ac ystyrlon yn rhan allweddol o sicrhau bod disgyblion yn ymgartrefu yn eu hysgol newydd heb darfu ar eu lles a'u haddysg. Caiff hyn ei gefnogi trwy ddarparu cymorth academaidd a bugeiliol effeithiol a chyfleoedd strwythuredig er mwyn i ddisgyblion ymgyfarwyddo ag amgylchedd yr ysgol newydd a'r staff.

Bydd cyngor a chefnogaeth yn cael ei ddarparu gan y Cyngor i staff o Ysgol Gynradd Dolau i sicrhau bod y broses bontio mor llyfn a di-dor â phosibl.

Mae Llywodraeth Cymru a'r Cyngor wedi mabwysiadu hawliau plentyn Confensiwn y Cenhedloedd Unedig, sydd yn cael eu mynegi mewn saith nod craidd, hynny yw, mae gan bob pob plentyn a pherson ifanc yr hawl i:

1. Gael y dechrau gorau mewn bywyd.
2. Cael amrywiaeth gynhwysfawr o gyfleoedd addysg a dysgu.
3. Mwynhau'r iechyd gorau posibl ac yn ddiogel rhag cael eu cam-drin, eu herlid a rhag i neb gam-fanteisio arnyn nhw.
4. Cael mynediad at weithgareddau chwarae, hamdden, chwaraeon a diwylliannol.
5. Cael dweud eu dweud, eu trin â pharch, a bod eu hil a'u hunaniaeth ddiwylliannol yn cael eu cydnabod.
6. Cael cartref diogel a chymuned sy'n cefnogi lles corfforol ac emosiynol.
7. Osgoi bod o dan anfantais oherwydd tlodi.

Mae'r Cyngor o'r farn bod y cynnig yma o fudd i'r plant a phobl ifainc yn unol â'r saith nod craidd sydd wedi'u nodi uchod.

Fel y nodir yng Nghod Trefniadaeth Ysgolion Llywodraeth Cymru (2il Rifyn) (011/2018), mae'n ofynnol cyhoeddi Asesiad o'r Effaith ar y Gymuned ac Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb. Mae'r rhain wedi'u paratoi fel atodiadau i'r ddogfen ymgynghori yma ac maen nhw hefyd ar gael ar wefan y Cyngor. Mae rhagor o wybodaeth am effaith y cynnig ar ddisgyblion, gan gynnwys sut mae'r cynnig yn cyfrannu at bob un o saith nod Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015, yn ogystal ag asesiad o'r cynnig ar y pum ffordd o weithio, ar gael yn yr Asesiad o'r Effaith ar y Gymuned a'r Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb.

**Effaith debygol y cynnig ar y staff**

Pe bai'r cynnig yn mynd rhagddo, ein bwriad yw argymell i Gorff Llywodraethu dros dro'r ysgol gynradd cyfrwng Cymraeg newydd arfaethedig a Chorff Llywodraethu

Ysgol Gynradd Dolau, fod unrhyw swyddi ychwanegol sydd eu hangen o ganlyniad i sefydlu'r ysgol gynradd cyfrwng Cymraeg newydd ac Ysgol Gynradd Dolau yn dod yn ysgol gynradd cyfrwng Saesneg, islaw lefel uwch arweinwyr, yn cael eu clustnodi i'r staff presennol a gaiff eu cyflogi yn Ysgol Gynradd Dolau yn y lle cyntaf. Mae'r broses yma'n golygu y byddai staff Ysgol Gynradd Dolau yn cael y cyfle cyntaf i wneud cais am swyddi ychwanegol, cyn i unrhyw swyddi gael eu hysbysebu'n allanol. Os byddan nhw'n llwyddiannus, bydden nhw'n trosglwyddo pan fydd y cynnig yn cael ei roi ar waith. Mae gyda'r Cyngor bolisïau a gweithdrefnau Adnoddau Dynol cadarn a fydd yn rhoi sicrwydd i staff a chyflogwyr ynglŷn â rheoli newid sefydliadol. Bydd Carfan Adnoddau Dynol y Cyngor yn ymweld â phob aelod o staff Ysgol Gynradd Dolau a'u gwneud nhw i gyd yn effro i'r prosesu sydd ar ddod a'r holl gymorth sydd ar gael.

**Goblygiadau ariannol y cynnig**

Amcangyfrif cost cyfalaf y cynnig yw £15 miliwn.

Bydd y Cyngor yn casglu Ardoll Seilwaith Cymunedol ar bob tŷ a gaiff ei adeiladu, a fydd, ynghyd â chyllid gan y Cyngor a Llywodraeth Cymru (LlC) drwy'r Rhaglen Cymunedau Cynaliadwy ar gyfer Dysgu, yn ariannu'r prosiect yma. Bydd Rhaglen Cymunedau Dysgu Cynaliadwy Llywodraeth Cymru yn ariannu hyd at 65.0% o gostau'r prosiect yma, a hyd at 100.0% o'r costau sy'n uniongyrchol gysylltiedig â sicrhau bod yr ysgol gynradd cyfrwng Cymraeg yn bodloni safonau Carbon Sero-Net.

Bydd costau manwl ar gyfer darparu'r ysgol newydd ynghyd â rhai addasiadau ar raddfa fach i gynyddu'r capasiti yn Ysgol Gynradd Dolau yn cael eu datblygu ochr yn ochr â'r broses ymgynghori a chaiff cymeradwyaeth ei cheisio yn unol â gweithdrefnau'r Cyngor o ran dod i benderfyniadau.

Bydd unrhyw oblygiadau o ran refeniw o ganlyniad i'r ysgol gynradd cyfrwng Cymraeg newydd, gan gynnwys cyllideb ddirprwyedig yr ysgol ac unrhyw gynnydd posibl mewn costau cludiant o'r cartref i'r ysgol, yn cael eu nodi wrth i'r cynnig fynd yn ei flaen ac yn cael eu cynnwys yn nhrefniadau Cynllunio Ariannol Tymor Canolig y Cyngor.

**Cludiant rhwng y Cartref a'r Ysgol**

Mae'n ddyletswydd statudol ar bob Cyngor yng Nghymru i ddarparu cludiant am ddim i ddisgyblion i'w hysgolion addas agosaf os ydyn nhw'n byw pellter sydd y tu hwnt i 'bellter cerdded' o'r ysgol honno. Mae'r term 'ysgol addas' yn cyfeirio at ddalgylch ysgol cyfrwng Cymraeg, cyfrwng Saesneg, ysgol cyfrwng Cymraeg a Saesneg, neu ysgol prif ffrwd wirfoddol gymorthedig cynradd, uwchradd neu ysgol/dosbarth arbennig fel y bo'n briodol. Mae'r gyfraith yn diffinio 'pellter cerdded' diogel yn ddwy filltir i ddisgyblion ar gyfer disgyblion o oedran addysg statudol a thair milltir i bob disgybl o oedran addysg uwchradd statudol (blwyddyn 7 i 11).

Mae'r Cyngor wedi defnyddio'r disgresiwn sydd wedi'i roi iddo gan Fesur Teithio gan Ddysgwyr (Cymru) 2008, a chynnig darpariaeth fwy hael i ddisgyblion. Yn dilyn ymarfer ymgynghori cyhoeddus diweddar a gychwynnwyd gan Gabinet y Cyngor,

mewn perthynas â Pholisi Cludiant o'r Cartref i'r Ysgol newydd arfaethedig ar gyfer y Cyngor, yr wybodaeth isod yw'r wybodaeth berthnasol mewn perthynas â'r cynnig:

- Mae'r maen prawf ar gyfer pellter cerdded i ddisgyblion o oedran ysgol gynradd statudol yn eu hysgol addas agosaf wedi cael ei osod ar 1½ milltir, yn hytrach na 2 filltir fel sy'n ofynnol gan y Mesur Teithio gan Ddysgwyr (Cymru) 2008.
- Caiff cludiant am ddim ei ddarparu i'w hysgol addas agosaf, lle mae lleoedd ar gael, i ddisgyblion sy'n bodloni'r meini prawf cymhwyster 1½ milltir o ddechrau'r Cyfnod Sylfaen, yn hytrach nag o ddechrau'r oedran ysgol statudol fel sy'n ofynnol gan y Mesur Teithio gan Ddysgwyr (Cymru) 2008.
- Mae'r term 'ysgol addas' yn cyfeirio at ddalgylch ysgol cyfrwng Cymraeg, cyfrwng Saesneg, ysgol cyfrwng Cymraeg a Saesneg, ysgol prif ffrwd wirfoddol gymorthedig (yr Eglwysi) neu ysgol/dosbarth arbennig fel y bo'n briodol.

Mae rhagor o wybodaeth mewn perthynas â darpariaeth cludiant o'r Cartref i'r Ysgol y Cyngor ar gael i'w darllen a'i lawrlwytho o wefan y Cyngor:
https://www.rctcbc.gov.uk/cludiantysgol

Mae tua 0.4 milltir rhwng Ysgol Gynradd Dolau a'r safle sydd wedi'i nodi ar gyfer yr ysgol gynradd cyfrwng Cymraeg newydd ar safle datblygiad tai Llanilid. Pe bai'r cynnig yn mynd rhagddo, mae llwybr cerdded diogel i ddisgyblion Ysgol Gynradd Dolau gerdded i'r ysgol gynradd cyfrwng Cymraeg newydd.

O ran trafnidiaeth gyhoeddus, mae bws gwasanaeth trafnidiaeth gyhoeddus sy'n rhedeg yn rheolaidd. Serch hynny, dydy cost a gweithredu trafnidiaeth gyhoeddus yn yr ardal ddim yn rhan o gylch gwaith y Cyngor.

**Gwybodaeth o ran tir ac adeiladau**

Ni fydd unrhyw dir nac adeiladau'n wag neu dros ben o ganlyniad i gyflawni'r cynnig yma.

## Ffurflen Ymateb i'r Ymgynghoriad

Er mwyn cydymffurfio â dyletswydd gyfreithiol Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf o dan Ddeddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013 a'i helpu i ddod i benderfyniad ynglŷn â'r cynnig isod, byddai'n ddefnyddiol iawn pe bai modd i chi ateb y cwestiynau canlynol. Sylwch, fyddwn ni ddim yn rhannu unrhyw wybodaeth bersonol rydych chi'n ei rhoi. Bydd hi'n cael ei defnyddio at ddibenion rhoi adborth i chi yn unig, a hynny yn ôl y gofyn. Bydd unrhyw sylwadau y mae modd eu defnyddio i'ch adnabod chi yn cael eu nodi'n ddienw yn adroddiad yr ymgynghoriad. Mae gofyn i chi ddychwelyd ffurflenni wedi'u llenwi i'r cyfeiriad yma:

| | | |
|---|---|---|
| Cyfarwyddwr Addysg a Gwasanaethau Cynhwysiant<br>Rhaglen Ysgolion yr 21ain Ganrif<br>Canolfan Menter y Cymoedd<br>Parc Hen Lofa'r Navigation<br>Abercynon<br>CF45 4SN | **NEU** | CynllunioYsgolion@rctcbc.gov.uk |

**Y cynnig:**
Sefydlu ysgol gynradd cyfrwng Cymraeg newydd ar gyfer disgyblion 3 i 11 oed yn rhan o ddatblygiad tai Llanilid a'r cynnig i newid cyfrwng iaith Ysgol Gynradd Dolau o ysgol sydd â dwy ffrwd iaith i ysgol cyfrwng Saesneg.

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Ydych chi'n cytuno â'r cynnig?** | **Ydw** | | **Nac ydw** | | **Ddim yn siŵr** | |
| | *Ticiwch* | | | | | |

| **Nodwch y rhesymau dros eich dewis.** |
|---|
| |
| |
| |
| |
| |
| |
| |
| |

| **Ydych chi o'r farn y gallai'r cynnig effeithio ar gyfleoedd pobl i ddefnyddio a hyrwyddo'r Gymraeg (Cadarnhaol neu Negyddol)?** |
|---|
| |
| |
| |
| |
| |
| |
| |
| |

**Ydych chi o'r farn bod y cynnig mewn unrhyw ffordd yn trin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg?**

**Sut byddai modd cynyddu effeithiau cadarnhaol neu leihau effeithiau negyddol ar y Gymraeg?**

**Nodwch unrhyw sylwadau neu faterion eraill yr hoffech chi i ni eu hystyried (atodwch ddalennau ychwanegol os oes angen).**

| **Nodwch pwy ydych chi (e.e. rhiant/gwarcheidwad disgybl yn yr ysgol sy'n cael ei henwi, llywodraethwr yr ysgol sy'n cael ei henwi ac ati).** |
| --- |
| |
| |
| |
| |
| |
| |
| |
| |
| |

| **Enw (dewisol):** |
| --- |
| |
| |
| |

| **Rhowch fanylion cyswllt os ydych chi'n dymuno cael gwybod am gyhoeddi'r adroddiad ar yr ymgynghoriad.** |
| --- |
| |
| |
| |
| |
| |
| |
| |
| |
| |

**Anfonwch holiaduron wedi'u llenwi i'r cyfeiriad uchod erbyn 17:00 ddydd Gwener 25 Hydref 2024, fan bellaf.**

Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf wedi ymrwymo i sicrhau bod eich gwybodaeth bersonol yn cael ei chadw'n ddiogel a'i fod yn rhoi gwybod i chi sut mae'n defnyddio'ch gwybodaeth. I ddysgu am sut rydyn ni'n diogelu'ch preifatrwydd, a sut a pham rydyn ni'n defnyddio'ch gwybodaeth bersonol i ddarparu gwasanaethau ar eich cyfer chi, darllenwch ein hysbysiad preifatrwydd (Ymgynghori) yma: https://www.rctcbc.gov.uk/CY/Council/DataProtectionandFreedomofInformation/DataProtection/serviceprivacynotices/ChiefExecutives/ConsultationPrivacyNotice.aspx

a

https://www.rctcbc.gov.uk/DiogeluData

**Ffurflen Monitro Cydraddoldeb**

Mae'r Cyngor wedi ymrwymo i'r egwyddor o gyfleoedd cyfartal. Wrth gael darlun clir o broffil cydraddoldeb ymatebwyr ein hymgynghoriad, bydd hi'n bosibl i ni fonitro pa mor effeithiol y mae ein polisïau a'n dulliau gweithredu ni o ran materion cyfleoedd cyfartal. Rydyn ni'n cynnal gwaith monitro er mwyn nodi diffygion o ran manteisio ar ein gwasanaethau ni, gan ymateb i hyn trwy wneud newidiadau wedi'u targedu. Caiff data eu defnyddio i wella gwasanaethau ac wrth adrodd yn ôl yn unig.

Mae'r rheiny sy'n cymryd rhan yn gwbl rydd i benderfynu a ydyn nhw'n llenwi'r ffurflen yma ai peidio, a does dim canlyniadau o beidio â gwneud hynny. Dydyn ni ddim yn bwriadu cadw unrhyw wybodaeth bersonol o'r ffurflen yma a fydd yn datgelu pwy ydych chi. Cofiwch hynny wrth i chi nodi atebion yn y blychau testun. Pan rydych chi'n darparu gwybodaeth i ni amdanoch chi'ch hun neu eraill, bydd Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf yn sicrhau y bydd yn cael ei phrosesu yn unol â gofynion Deddf Diogelu Data 2018 a'i defnyddio at ddibenion monitro ac adrodd yn ôl yn unig.

**Oedran**

1. Beth yw'ch oedran chi?

- ☐ 16-24
- ☐ 25-34
- ☐ 35-44
- ☐ 45-54
- ☐ 55-64
- ☐ 65-74
- ☐ 75+
- ☐ Mae'n well gen i beidio â dweud

**Rhyw**

2. Ydych chi'n:

- ☐ Benyw
- ☐ Gwryw
- ☐ Mae'n well gen i beidio â dweud

Bydd cwestiwn am hunaniaeth rhywedd yn cael ei ofyn maes o law.

**Hunaniaeth Rhywedd**
3. A yw'r rhywedd rydych chi'n uniaethu ag ef yr un rhyw a gofrestrwyd adeg eich genedigaeth?
☐ Ydy
☐ Nac ydy, nodwch eich hunaniaeth rhywedd: ________________________________
☐ Mae'n well gen i beidio â dweud

**Cyfeiriadedd Rhywiol**
4. Pa un o'r canlynol sy'n disgrifio'ch cyfeiriadedd rhywiol orau?

- ☐ Deurywiol
- ☐ Dyn hoyw
- ☐ Menyw hoyw/Lesbiaidd
- ☐ Heterorywiol/Syth
- ☐ Mae'n well gen i beidio â dweud

Os yw'n well gyda chi ddefnyddio'ch term eich hun, nodwch y term yma: ________________________

**Hunaniaeth Genedlaethol**
5. Sut byddech chi'n disgrifio'ch hunaniaeth genedlaethol?

- ☐ Prydeinig
- ☐ Cernywig
- ☐ Seisnig
- ☐ Gwyddelig
- ☐ Gwyddelig Gogledd Iwerddon
- ☐ Albanwr/Albanes
- ☐ Cymro/Cymraes
- ☐ Arall (rhowch ddisgrifiad): _______________________
- ☐ Mae'n well gen i beidio â dweud

**Ethnigrwydd**
6. Sut byddech chi'n disgrifio'ch grŵp ethnig?

- ☐ Arabaidd

- ☐ Asiaidd: Prydeinig
- ☐ Asiaidd neu Asiaidd Brydeinig: Bangladeshi
- ☐ Asiaidd neu Asiaidd Brydeinig: Tsieineaidd
- ☐ Asiaidd: Cernywig
- ☐ Asiaidd: Saesneg
- ☐ Asiaidd neu Asiaidd Brydeinig: Indiaidd
- ☐ Asiaidd: Gwyddelig
- ☐ Asiaidd: Gwyddelig Gogledd Iwerddon
- ☐ Asiaidd neu Asiaidd Brydeinig: Pacistanaidd
- ☐ Asiaidd: Albanaidd
- ☐ Asiaidd neu Asiaidd Brydeinig: Dwyrain Asiaidd - Arall
- ☐ Asiaidd neu Asiaidd Brydeinig: De Asiaidd - Arall
- ☐ Asiaidd: Cymreig

☐ Asiaidd neu Asiaidd Brydeinig: Arall (rhowch ddisgrifiad): ______________________

☐ Du: Prydeinig
☐ Du neu Ddu Brydeinig Affricanaidd
☐ Du neu Ddu Brydeinig Caribïaidd
☐ Du: Cernywig
☐ Du: Saesneg
☐ Du: Gwyddelig
☐ Du: Gwyddelig Gogledd Iwerddon
☐ Du: Albanaidd
☐ Du: Cymreig
☐ Du, Du Prydeinig, neu Ddu Affricanaidd: Arall (rhowch ddisgrifiad): ______________________

☐ Sipsiwn Seisnig
☐ Sipsiwn Gwyddelig
☐ Teithiwr Gwyddelig
☐ Sipsiwn Albanaidd
☐ Teithiwr Albanaidd
☐ Sipsiwn Cymreig

☐ Cymysg/Lluosog: Affricanaidd a Charibïaidd
☐ Cymysg/Lluosog: Du Prydeinig a Gwyn
☐ Cymysg/Lluosog: Du Affricanaidd a Gwyn
☐ Cymysg/Lluosog: Du Caribïaidd a Gwyn
☐ Cymysg/Lluosog: Dwyrain Asiaidd a Gwyn
☐ Cymysg/Lluosog: De Asiaidd a Gwyn
☐ Cymysg/Lluosog: Arall (rhowch ddisgrifiad): ______________________

☐ Roma
☐ Sinti

☐ Gwyn: Prydeinig
☐ Gwyn: Cernywig
☐ Gwyn: Seisnig
☐ Gwyn: Sipsiwn
☐ Gwyn: Gwyddelig
☐ Gwyn: Teithiwr Gwyddelig
☐ Gwyn: Gwyddelig Gogledd Iwerddon
☐ Gwyn: Albanaidd
☐ Gwyn: Cymreig
☐ Gwyn: Arall (rhowch ddisgrifiad): ______________________

☐ Mae'n well gen i beidio â dweud

Os Grŵp Ethnig arall neu os yw'n well gyda chi ddefnyddio'ch diffiniad eich hun, nodwch y diffiniad yma: ______________________

**Anabledd**
7. Ydych chi'n ystyried eich hun yn anabl?

Fel hyn mae'r Ddeddf Cydraddoldeb (2010) yn diffinio anabledd: '*Amhariad corfforol neu feddyliol sy'n cael effaith andwyol sylweddol a hir dymor ar allu person i gyflawni gweithgareddau pob dydd arferol'.*

- ☐ Ydw
- ☐ Nac ydw
- ☐ Mae'n well gen i beidio â dweud

**Crefydd neu gred**

8. Beth yw eich crefydd/cred?

- ☐ Bwdhydd
- ☐ Cristion (gan gynnwys Eglwys Cymru, Catholig, Protestannaidd a phob enwad arall)
- ☐ Hindŵ
- ☐ Iddew
- ☐ Mwslim
- ☐ Anghrefyddol (e.e. Anffyddiwr, Dyneiddiol ac ati)
- ☐ Sikh
- ☐ Mae'n well gen i beidio â dweud

Os nad yw eich crefydd neu gred wedi'i rhestru neu pe hoffech chi ddefnyddio'ch diffiniad eich hun, nodwch hynny yma: ___________

**Cyfrifoldebau rhoi gofal**
9. Ydych chi'n gofalu am aelodau o'r teulu, ffrindiau, cymdogion neu eraill (neu'n rhoi cymorth iddyn nhw) oherwydd naill ai: cyflwr/anabledd corfforol neu feddyliol tymor hir, neu broblemau sy'n gysylltiedig â henaint?

- ☐ Nac ydw
- ☐ Ydw, 1-19 awr yr wythnos
- ☐ Ydw, 20-49 awr yr wythnos
- ☐ Ydw, 50 awr neu fwy yr wythnos
- ☐ Mae'n well gen i beidio â dweud

**Beichiogrwydd a mamolaeth**
10. Ydych chi'n feichiog ar hyn o bryd, neu ydych chi wedi bod yn feichiog yn ystod y 12 mis diwethaf?

- ☐ Ydw
- ☐ Nac ydw
- ☐ Mae'n well gen i beidio â dweud

11. Ydych chi wedi bod ar gyfnod mamolaeth yn ystod y 12 mis diwethaf, neu ydych chi ar gyfnod mamolaeth ar hyn o bryd?

- ☐ Ydw
- ☐ Nac ydw
- ☐ Mae'n well gen i beidio â dweud

**Cyn-filwyr a'r Lluoedd Arfog**
12. Ydych chi erioed wedi gwasanaethu yn y Lluoedd Arfog, neu'n gwasanaethu ar hyn o bryd?

- ☐ Ydw
- ☐ Nac ydw
- ☐ Mae'n well gen i beidio â dweud

- ☐ Dydw i ddim eisiau darparu unrhyw wybodaeth y mae gofyn amdani ar y ffurflen yma